

PWYLLGOR DEDDF YSTÂD YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Cofnodion cyfarfod arbennig anghysbell a gynhaliwyd ar 14 Mawrth, 2022

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J.E. Charles, G.A. Cox, R. Crowley and S.T. Wiliam.

958 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

959 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd)

960 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2022 fel cofnod cywir, yn amodol ar y Cynghorydd J.C. Charles yn dymuno egluro'r cyd-destun yr oedd wedi gwneud rhai sylwadau ynddo yn ystod y drafodaeth am Eitem 8 ar yr Agenda – 'Tir yn Glebe Fields, Sili – Cais Ymholiad Gwyrdd Tref a Phentref'.

Dywedodd y Cynghorydd Charles nad oedd wedi bod yn glir iddi pam y byddai angen penodi bargyfreithiwr wrth fwrw ymlaen â'r mater, ac roedd wedi deall ei bod yn awgrymu y byddai bargyfreithiwr yn cael ei benodi pe bai'r Ymddiriedolwyr yn anghytuno ag argymhellion Swyddogion. Roedd y Swyddog Monitro wedi cysylltu â'r Cynghorydd Charles wedi hynny ac egluro nad oedd hyn yn wir. Gorffennodd y Cynghorydd trwy ddweud bod y cofnodion yn nodi'r mater yn glir.

961 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

962 TIR YN CASSY HILL, TREGATWG (PW) –

Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn penderfyniad diwethaf y Pwyllgor ym mis Ionawr 2022 i ohirio eu penderfyniad ynghylch y mater er mwyn

i'r Aelodau gael cyfle i archwilio'r safle dan sylw a chaniatáu amser i'r ymgeisydd a thrigolion Church Terrace gyflwyno rhagor o wybodaeth i gefnogi eu safbwyntiau.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Eiddo fod yr Ymddiriedolwyr a oedd yn dymuno ymweld â'r safle bellach wedi cael cyfle i wneud hynny, a bod papurau wedi'u cyflwyno i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol gan bartïon â diddordeb a oedd wedi'u hatodi yn Atodiadau A a B yr adroddiad. Roedd pob parti wedi cadarnhau nad oedd ganddynt wrthwynebiad i gyflwyno'r papurau i'r Pwyllgor o dan Ran I yr agenda. Dywedodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol fod sylwadau ychwanegol wedi'u derbyn gan yr ymgeisydd a oedd wedi'i ddsobarthu wedyn i'r Ymddiriedolwyr a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor fel gwybodaeth atodol i'r eitem ar yr agenda. Roedd trigolion Church Terrace wedi cael gwybod am y wybodaeth ategol ac wedi cael cyfle i gyflwyno eu sylwadau ychwanegol eu hunain pe baent yn dymuno gwneud hynny, er nad oedd y Swyddog wedi derbyn unrhyw bapurau ychwanegol cyn y cyfarfod.

Cadarnhaodd cyngor cyfreithiol pe bai'r Ymddiriedolwyr yn dewis bwrw ymlaen â'r cynnig presennol o werthu i'r ymgeisydd gwreiddiol neu fynd i gynigion wedi'u selio (h.y. gwahodd ceisiadau gan bawb sydd â diddordeb), na fyddent yn torri eu dyletswydd mewn perthynas â chyfraith elusennau neu weithredu yn unol â'r Adroddiad Syrfewyr Cymwys. Felly, gofynnodd yr adroddiad i'r Ymddiriedolwyr, yng ngoleuni eu hymweliad â'r safle a'r sylwadau a dderbyniwyd gan bob parti, gadarnhau sut yr oeddent am fwrw ymlaen.

Ar ôl i'r Swyddog gyflwyno'r adroddiad, ymatebwyd i ymholiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

- Yr unig gynnis a dderbyniwyd hyd yma oedd un yr ymgeisydd gwreiddiol. Ar hyn o bryd nid oedd unrhyw gynigion eraill wedi dod i law.
- Ni fyddai unrhyw rwymedigaeth ar Ymddiriedolwyr i fwrw ymlaen ag unrhyw warediad o'r tir pe bai hynny'n benderfyniad gan ymddiriedolwyr, ond byddai cyfrifoldebau cynnal a chadw parhaus i'r Ymddiriedolaeth pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i gadw'r tir.

Cadarnhaodd yr Ymddiriedolwyr a oedd wedi gallu mynychu'r safle fod yr ymweliad wedi bod yn ddefnyddiol gan ei fod yn dangos yr anawsterau o ran mynediad i'r ardal ac i gerbydau sy'n troi er mwyn gadael yr ardal, ond tynnodd sylw hefyd at anawsterau a allai godi drwy atal mynediad i'r tir mewn unrhyw ffordd.

Roedd yr Ymddiriedolwyr yn cytuno y byddai proses cynigion wedi'u selio yn deg gan ei bod yn rhoi cyfle i bob parti, gan gynnwys yr ymgeisydd gwreiddiol, gyflwyno cais am y tir, gyda'r Ymddiriedolaeth wedyn yn gallu bwrw ymlaen â'r cais a oedd yn rhoi'r gwerth gorau iddynt. Roedd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn deall pryderon trigolion ynghylch parti arall a oedd yn berchen ar dir a oedd yn darparu mynediad i'w heiddo, a chytunodd y dylai eu penderfyniad nodi na ddylid cyfyngu ar yr hawliau tramwy neu fynediad presennol ni waeth pa barti oedd yn prynu'r tir.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad atodedig yn llawn,

PENDERFYNWYD -

(1) DWEUD wrth y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Eiddo i wahodd cynigion seliedig gan y parti gwreiddiol a pherchnogion cartrefi ar hyd Church Terrace i brynu'r tir.

(2) RHOI awdurdod dirprwyedig i'r Rheolwr Gweithredol ar gyfer Eiddo i dderbyn y cynnig uchaf a chytuno ar Benaethiaid Telerau ar gyfer gwerthu tir (gan gynnwys cadw'r hawl tramwy ar gyfer mynediad i'r eiddo ar Church Terrace) a chytuno ar Benawdau Telerau ar gyfer gwerthu'r tir (i gynnwys eiddo ar Church Terrace) a dweud wrth Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cyfreithiol i baratoi a chwblhau'r dogfennau cyfreithiol angenrheidiol er mwyn gwaredu'r tir i'r parti llwyddiannus.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Er mwyn i'r holl bartïon yr effeithir arnynt, gan gynnwys y parti gwreiddiol, gael cyfle i gyflwyno cynnig seliedig i brynu'r tir.

(2) Er mwyn gallu bwrw ymlaen â gwerthiant ar ôl i'r broses cynigion seliedig ddod i ben.